Cyngor Tref Llandeilo Fawr
Llandeilo Fawr Town Council

Cofnodion Pwyllgor Cyllid Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd ddydd Mercher 11eg Gorffennaf, 2007 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 8 pm

Presennol: Y Maer Cyng Richard Wallace, Cyng Colin Jenkins, Cyng Dawn Wallace, Cyng Ros Bellamy .
Mr Roger Phillips, Clerc y Dref, Mr Christopher Plummer, Swyddog Cyllid,
Mr Des Davies, Swyddog Technegol.

Ymddiheuriadau : Cyng Ieuan Gwyn, Cyng Edward Thomas, Cyng Hugh Towns, Cyng Roy Davies

Cof 113/ Gorffennaf/ 07 Anfonebau i'w talu.
Penderfynwyd y dylid talu'r anfonebau canlynol
WCVA (Cyflogau Mehefin) £ 159.76
WCVA (Gweinyddiaeth Gorffennaf) £ 34.66
Cynigiwyd gan y Cyng Dawn Wallace, eiliwyd gan y Cyng Richard Wallace

Cof 114/ Gorffennaf /07 Incwm Derbyniwyd Mehefin 2007
Llog cyfrif cyfredol £ 1.10
Ad-daliad TAW £ 17, 502.31
Rent Chwarterol (Arch. Cambria) £ 3, 140.75

Cof 115 / Gorffennaf / 07 Balansau'r Cyfrifon
Cofnodwyd a **Derbyniwyd** yr adroddiad canlynol ar gyllid y Cyngor:
LTC CYFRIF CYFREDOL (30.6.07) £ 1,456.31
LTC CYFRIF CYNILO (30. 6.07) £ 68,176.69
LTC CYFRIF TREULIAU'R MAER (20.6.07) £ 1,389.86*
*yn ogystal £1787.85 taliadau am ginio'r Maer
O ganlyniad i'r Rhent a dderbyniwyd, mae swm y cyfrif Cyfredol yn £ 4,357.64

Cof 116/ Gorffennaf / 07 Materion Ariannol Eraill
1. Archwiliadau Chwarterol
Adroddodd y Cyng Ros Bellamy bod 1 anfoneb ar goll ar adeg yr archwiliad. Bellach mae'r anfoneb hon wedi'i chanfod. Bydd angen archwilio dau rif sydd ar goll.
2. Rhagolwg Tair Blynedd i'r Gyllideb.
Rhoddodd y Swyddog Cyllid fanylion o'r rhagolygon a wnaed. Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â'r digwyddiadau sydd i'w cynnal yn Llandeilo dros y tair blynedd nesaf.
Argymhellwyd gan y Cyng Colin Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng Richard Wallace bod swm o £ 3000 i'w osod i'r naill ochr ar gyfer canmlwyddiant Parc Penlan yn 2008.
Cynigiwyd gan y Cyng Dawn Wallace ac eiliwyd gan y Cyng Richard Wallace bod £1000 i'w rhoi i drefnwyr Treialon Cŵn Defaid y Byd eleni am drefnu treuliau a £2000 i'w roi i'r naill ochr er mwyn i'r Cyngor drefnu derbyniad i gystadleuwyr yn 2008.

Argymhellodd y Cyng Colin Jenkins y dylid rhoi £2000 i Wŷl Cerdd a Blodau Llandeilo yn 2008 a chynnydd o £500 y flwyddyn am y tair blynedd nesaf i'w cynorthwyo hwy gyda chynllunio cyllid. Eiliwyd yr argymhelliad gan y Cyng Dawn Wallace. Awgrymodd y Cyng Ros Bellamy y dylai'r Cyngor ystyried sefydlu cronfa ymddiriedolaeth i'w ddefnyddio er mwyn dyfarnu gwobr neu ysgoloriaeth flynyddol i ddisgyblion yn Ysgol Tre-gib. Trafodir hyn ymhellach mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

Cof 117/ Gorffennaf/ 07 Gohebiaeth Parthed Gohebiaeth

1. Cais gan Philip Rees & Brian Hughes o Lanelli am Gymorth Ariannol i Gynrychioli Cymru yn y Gemau Olympaidd Arbennig yn Shanghai. Argymhellwyd y dylid rhoi £100 yr unigolyn, cynigiwyd gan y Cyng Ros Bellamy, eiliwyd gan y Cyng Colin Jenkins.

Cof 118 / Gorffennaf / 07 Unrhyw eitemau eraill o fusnes sydd am resymau arbennig, yn ôl penderfyniad y Cadeirydd yn haeddu sylw brys, yn unol ag adran 100B(4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.15 pm.